PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 157 Rhif 51/52 Rhagfyr 19/26, 2024 50c.




## PIP oedfa Nadolig o dan olau cannwyll

Mae rhywbeth rhyfedd yn digwydd dan olau cannwyll, rhyw ledrith na all rywun ei esbonio. Mae wynebau pawb yn edrych yn wahanol o dan olau cannwyll. A dyna ble'r oeddem ni wedi ymgasglu'n ddisgwylgar ar nos Sul 1 Rhagfyr er mwyn cychwyn tymor yr Adfent yng nghwmni pobl ifanc y Priordy. Roedd 15 ohonynt yno i'n tywys ni drwy oedfa hyfryd a meddylgar. Diolch i bawb o'r criw am fod mor ardderchog.



### Golau gobaith

Yn gyntaf i'r pulpud roedd Tomos Huw i'n croesawu ac i roi gair o weddi gan gyfeirio at y golau ac at obaith, a hynny ar adeg pan fo'r byd yn teimlo'n reit ddiobaith. Yna daeth Syfi ymlaen a datgan y garol gyntaf gan dynnu sylw at y ffaith fod Bethlehem a Chalfaria, y preseb a'r groes, yn cael eu crybwyll yn y garol sef 'Wele'n gwawrio ddydd i'w gofio' (*C. Ff.* 448). Yn dilyn y cyhoeddiadau a'r casgliad ar gyfer cynnal y cinio Nadolig sy'n cael ei drefnu gan y Bedyddwyr Saesneg yn y dref a gasglwyd gan Noa, Iestyn, Miriam ac Olwen, fe gawsom wrando ar gerddoriaeth hyfryd. Cyhoeddodd Mac y garol nesaf sef 'Ganol gaeaf noethlwm' (*C. Ff.* 466).

### Y Bêl Gron

Tro Gwilym a Trystan oedd hi nesaf, a'r ddau'n cael sgwrs hamddenol am bêl-droed (gan anwybyddu ffawd Cymru ar y cae rygbi, chware teg), dyma'r ddau'n hel atgofion am hanes pêl-droed yng Nghymru am mai yn Wrecsam yn 1864 y cychwynnodd y clwb cyntaf. Ac fe chwaraewyd y gêm bêl-droed gyntaf gan Gymru yn erbyn yr Alban, pan gollodd Cymru 4–1. Roedd mwy ganddyn nhw i'w ddweud am bêl-droed ond byddai'n rhaid i ni aros i glywed am hynny yn nes ymlaen. Daeth Iestyn i gyhoeddi'r garol nesaf, sef 'O mor dlws yw stori'r geni' a hynny ar dôn go arbennig, sef cerddoriaeth 'Match of the Day'. A ninnau fel cynulleidfa yn gobeithio i ni anelu at gefn y rhwyd gyda'n canu ac nid cael *own goal*.

### Ennyd o hedd

Daeth Caleb, Noa ac Ethan wedyn i roi ychydig o hanes y gêm bêl-droed enwog honno a gafwyd rhwng yr Almaenwyr a'r Prydeinwyr amser Nadolig adeg y Rhyfel Mawr yn 1914. Tra bu i'r gyflafan erchyll a barhaodd am bum mlynedd, ble collwyd miloedd ar

*parhad ar y dudalen 2*

## Y Parchg Dyrinos Thomas

Trist iawn oedd gennym glywed am farwolaeth y Parchg Dyrinos Thomas, Caerdydd, yn ddiweddar. Cydymdeimlwn gyda'r teulu yn eu colled a'u hiraeth yn enwedig ei feibion Carwyn ac Euros.

Bu ef yn weinidog yn Aberhonddu; Llanerfyl a'r Foel 1957–61 a Nasareth, Pontiets, 1961–7.



## CYFARCHION yr Ŵyl

Dymunwn ni, aelodau staff Tŷ John Penri a Swyddogion yr Undeb, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi ddarllenwyr *Y Tyst* ac aelodau'r eglwysi y cawn ni'r fraint o'u gwasanaethu yn ystod y flwyddyn.

Gwerthfawrogwn eich cefnogaeth hael a'ch cydweithrediad cyson.

Bydd y swyddfa ynghau o brynhawn Gwener, 20 Rhagfyr tan ddydd Iau, 2 Ionawr 2025.



# ‘Wyneb Newydd 2024’: codi merched i arwain ac ysbrydoli

*Dyma ail ran yr erthygl hon*

Cefais innau’r fraint fawr am bythefnos yn niwedd Medi o gael cwmni criw o 13 o ferched sy’n arwain mewn eglwysi ar hyd a lled y byd ac sydd wedi bod yma yng Nghymru gyda ni. Merched o eglwysi’n perthyn i CWM (Cyngor y Genhadaeth Fydeang) oedden nhw – yn Zambia, Zimbabwe a Madagascar o gyfandir Affrica; merched o Trinidad a Tobago yn y Caribî; a merched o Awstralia, Seland Newydd ac ynysoedd Kiribati yn y Môr Tawel.

### Y Bala

Ar ddiwrnod braf, hydrefol yn y Bala cawsom gyfarfod arbennig iawn lle daeth cyfle i ni fel arweinwyr eglwysig o Gymru wrando ar eu profiadau a’u hargraffiadau wrth i’w cyfnod yma gyda ni ddirwyn i ben. Rydyn ni’n tybio ein bod yn adnabod ein hunain mor dda, ond o wrando ar eu cwestiynau syml ond tu hwnt o onest a threiddgar, fe ddechreuais adnabod ein sefyllfa ni ein hunain o bersbectif gwahanol.

### Cwestiynau treiddgar

Heb ddisgwyl ateb, dyma rai o’r cwestiynau a ofynnwyd i ni:

1. Rydyn ni wedi clywed llawer am eich hanes fel cenedl ac fel eglwysi, ond beth yw eich gweledigaeth i’r dyfodol?
2. Pam fod eich eglwysi sydd angen bywyd wedi eu hamgylchynu gan y meirw mewn mynwentydd?
3. Ai eich angerdd dros eich adeiladau ydy’r etifeddiaeth rydych chi am ei throsglwyddo a’i rhannu gyda’r genhedlaeth nesaf?
4. Sut ydych chi’n cael arian i gynnal eich gwaith a’ch cenhadaeth os nad ydych chi’n annog pobl i roi?

Cwestiynau amlwg oedd y rhain, wedi cael eu gofyn yn annwyl o brofiad personol y merched a fu yma yng Nghymru gyda ni am gyfnod byr. Criw o ferched y gwnes i dyfu i’w parchu a’u gwerthfawrogi am eu holl ymdrechion yn eu heglwysi eu hunain, lle nad yw hi bob tro mor hawdd i fod yn ferch sy’n arwain. Mi fyddaf yn diolch am waddol eu cwestiynau a fu’n rhodd i mi ac i arweinwyr eraill a fu yn eu cwmni yn y Bala.

**Nan Wyn Powell-Davies**


# PIP oedfa Nadolig o dan olau cannwyll – parhad

filoedd o fywydau’n ddiangen, adeg y Nadolig, am gyfnod byr, daeth yr ymladd i ben am gyfnod a’r milwyr o’r ddwy ochr yn dod mas i gwrdd â’i gilydd ar dir neb a chwarae gêm bêl-droed. A nhwythau ymhell o gartref dros gyfnod yr ŵyl, roedd pobl wedi anfon anrhegion syml at y milwyr i’w cysuro, ar y ddwy ochr. Bu’r dynion hefyd yn canu carolau i’w gilydd ar draws maes y gad. Ac am ychydig bach o amser, bu heddwch adeg rhyfel. Chwaraewyd ffilm o gôr yn canu ‘Stille Nacht’ (Tawel Nos) sef un o’r carolau a ganwyd ar y noson honno. Yna daeth Marged, Miriam ac Olwen i sôn mwy am y digwyddiad hwnnw ac am heddiw. Er i’r noson honno fod yn un hollol arbennig – un ble cyfnewidiodd y dynion ar faes y gad anrhegion a thynnu lluniau gyda’i gilydd yn frawdol – buan yr anghofiwyd am y noson gyfeillgar honno, ac aeth y rhyfel gwaedlyd ymlaen am bedair blynedd arall. Dyma oedd y rhyfel oedd am roi diwedd ar bob rhyfel, ond fel y gwelwn ni heddiw, fu hynny ddim yn wir, ddim o bell ffordd. Mae pobol ifanc y Priordy yn dyheu am gael heddwch yn ein byd ni.

### Tywysog Tangnefedd

Osian ddaeth wedyn i ddarllen mewn modd deallus y darn gobeithiol allan o Eseia pennod 9 sy’n sôn am y mab a aned i ni, yr un a ddaeth i fod yn dywysog heddwch. Yna daeth Gwennan ac Elliw i offrymu gweddi gan ein tywys ni yn ôl at y geni gwyrthiol hwnnw a ddigwyddodd dros ddwy fil o flynyddoedd yn ôl, pan aned yr un sy’n rhoi gobaith i ni bob tro, hyd yn oed mewn dyddiau du. Iestyn gyhoeddodd y garol olaf sef ‘Odlau tyner engyl’ (*C. Ff.* 462) cyn i Tomos Huw ddirwyn y gwasanaeth i ben gyda’r fendith.

Yn wir, mi gawsom ni gyd fendith o fod yno’n gwrando ar y neges wrth olau cannwyll ar nos Sul cyntaf Rhagfyr. Gan obeithio y caiff bob un ohonoch Nadolig bendithiol.






Gellir dod o hyd i erthygl a rhagor o wybodaeth am y prosiect o ddilyn y ddolen hon: https://www.cwmission.org/a-new-face-2024-building-women-as-spiritual-catalysts/

# Ganol Gaeaf Noethlwm



Mae'r garol 'Ganol Gaeaf Noethlwm', sef cyfieithiad meistraidd y Parchedig S. B. Jones, un o Fois y Cilie, o gerdd Christina Rosetti 'In the Bleak Midwinter' yn ffefryn gan lawer.
Ganed Christina Rosetti yn 1830 i deulu diwylliedig; roedd ei thad Gabriel yn athro Eidaleg yng Ngholeg y Brenin, Llundain, a'i brodyr Dante Gabriel a William Michael yn sefydlwyr y mudiad celf *pre-Raphaelite*. Er bod iechyd Christina'n wan, cafodd ei chynnal gan ei ffydd gref, fel y dangoswyd yn ei cherddi crefyddol a'i gweithiau defosiynol.

### 'Bleak Midwinter'

Cyhoeddwyd geiriau 'In the Bleak Midwinter' gyntaf fel cerdd 'A Christmas Carol' yng nghylchgrawn *Scribner's Monthly* yn Ionawr 1872 ac erbyn 1906 roedd y garol wedi'i phriodi'n berffaith ag emyn-dôn Gustav Holst yn *The English Hymnal*. Mae pum pennill i gerdd Saesneg Christina Rosetti ac maen nhw'n drawiadol iawn. Cyfieithodd y Parchedig S. B. Jones dri o'r penillion hynny'n gwbl ragorol.

### Darlun trawiadol

Mae pennill cynta'r garol yn creu darlun o'r byd anghyfannedd a llwm y ganwyd y baban Iesu iddo. Fel sawl arlunydd ac awdur, mae Rosetti (ac SB) yn gosod y geni gwyrthiol ynghanol oerfel ein gaeaf ni. Dyw'r geiriau ddim yn awgrymu fod eira a rhew ym Methlehem, ond yn trawsblannu'r hanes i'n profiad ni, a thynnu ar hen ddelwedd lenyddol sy'n cysylltu'r gaeaf â genedigaeth Crist adeg y Nadolig. Defnyddiodd John Milton ddelweddau o eira gwyn yn ei gerdd 'On the Morning of Christ's Nativity' i guddio düwch y byd. Trawiadol hefyd yw'r ffordd y mae'r garol yn pwysleisio dyfodiad y Gwaredwr ynghanol gaeaf 'noethlwm' ein byd a'n bodolaeth ni. Mae'r paradocs eithafol hwn o'r Brenin Tragwyddol yn dod i'n byd drwy stabal tlawd yn un o gonglfeini'n ffydd ac yn thema ganolog i fwy nag un carol a cherdd.



### Rhoi ein calon

Yn oes Christina Rosetti, prin iawn oedd y cyfle i ferched dderbyn addysg ac ymgymryd â galwedigaethau proffesiynol. Fel y bugeiliaid tlawd, roedd statws merched yn isel, a phan hola Rosetti 'What can I give him, poor as I am' ('Beth a roddaf iddo, llwm a thlawd fy myd?'), mae'r cwestiwn yn llwythog o ystyr ac yn cynnwys pawb o bob traddodiad a chyfnod sy'n ddifreintiedig ac mewn angen. Beth bynnag ein sefyllfa yn y byd, mae'r garol yn ein gwahodd i fod yn obeithiol ac i gynnig ein rhodd i'r baban Iesu yn union fel y bugeiliaid a'r doethion. Er mor werthfawr i'r bugail yw oen gorau'r praidd, gallwn ni roi anrheg bwysicach hyd yn oed, sef ein calon a'n cred, ein hyder a'n gobaith. Mewn cyfnod o ryfela didostur mewn sawl gwlad y Nadolig hwn eto, a dioddefaint oherwydd brwydro a bomio mor amlwg, mae angen y gobaith golau hwnnw'n fwy nag erioed.

Yn nhawelwch yr ŵyl, gwerthfawrogwn yr hyn sydd o wir werth yn ein bywyd brau: cariad, cyfeillgarwch, cwmni, diolchgarwch – ac ymddiriedaeth lwyr yng Nghrist.

**Eurig Davies**
(o *Bwrlwm*, misolyn Capel y Nant, Clydach)

# Gweddi Nadolig gynulleidfaol



*Gellir defnyddio'r weddi hon mewn oedfa yn ystod tymor yr Adfent.*

**Cydweddïwn**

**Arweinydd:** Diolchwn am gyfle newydd i ddod at ein gilydd wrth i ni agosáu at ŵyl y Nadolig arall yn ein hanes.

**Cynulleidfa:** Cofiwn am eni rhyfeddol y baban mewn preseb oedd yn blentyn i'r bydysawd.

**Arweinydd:** Boed i ni roi lle a llety croesawgar a chynnes yn ein calonnau i'r gwerthoedd a'r gwirionedd gwelwyd ym mywyd y baban bendigedig.

**Cynulleidfa:** Tyrd atom ni, O grëwr pob goleuni, tro di ein nos yn ddydd.

**Arweinydd:** Par i ni weld holl lwybrau'r daith yn gloywi dan lewyrch gras a ffydd.

**Cynulleidfa:** Cydnabyddwn a chofleidiwn gariad difesur y baban brenhinol fu mewn cadachau ym Methlehem digroeso.

**Arweinydd:** Arbed ni rhag i'n bywydau fod yn orbrysur ac i ni ymgolli yn ein paratoadau masnachol ar gyfer y Nadolig hwn fel nad oes lle nac amser i chdi, Annwyl Dad, yn ein dathliadau o'r Gair a wnaethpwyd yn gnawd ac a drigodd yn ein plith.

**Cynulleidfa:** Wrth gofio'r stabl a'r preseb gynt, cadw ni rhag ymgolli yn ein dyhead hunanol am gysuron a hawddfyd na chafodd Iesu mohonynt.

**Arweinydd:** Helpa ni i gofio a chofleidio tlodion trist ac anghenus y blaned rhwygiedig hon; y newynog, y digartref, y di-waith, y diymgeledd, y dideulu a'r rhai heb obaith am ryddhad na gwellhad yn eu hamgylchiadau.

**Cynulleidfa:** Cofiwn am y miloedd, onid y miliynau, sy'n byw mewn ofn ac ansicrwydd oherwydd casineb a chreulondeb annynol mewn rhyfeloedd niferus yn ein byd heddiw.

**Arweinydd:** Yng nghyfnod yr Adfent, boed adferiad i'r parch hanfodol tuag at ein gilydd fel aelodau o'r hil ddynol er gwaethaf y gwahaniaethau rhyngom o ran lliw croen, cenedl, crefydd, iaith, traddodiad a diwylliant.

**Cynulleidfa:** Boed i ni chwilio, yn ddyfal yn nhywyllwch y byd heddiw, am seren ddisglair o obaith i'n goleuo a'n gwefrio, i adnewyddu ein cyd-ddealltwriaeth a chydgynllunio teg a chyfiawn ymhlith pobloedd ein planed, i ailadfer heddwch a harmoni tangnefeddus y Nadolig hwn.

**Arweinydd:** Llewyrcha dy oleuni, Arglwydd, ar ein byd toredig a chythryblus a'n bywyd dryslyd a chymhleth, er mwyn i lawenydd ledaenu i dywyllwch dudew pob cornel o anobaith a meddalu pob calon galed i weithredu mewn parch a thiriondeb.

**Cynulleidfa:** Cynorthwya ni i ganfod gweledigaeth newydd ar gyfer byd rhwygiedig. Boed i ni gyd-drafod i chwilio, chwennych a dyheu am ddyfodol mwy disglair a diogel er lles a budd pawb a phob un.

**Arweinydd:** Rho i ni gymhelliad cryfach i garu ein cymydog fel ni ein hunain ac fel rydym wedi ein caru a byddwn yn cael ein caru hyd ddiwedd amser gan ein Tad tragwyddol yn enw yr Iesu annwyl gafodd ei wawdio a'i wrthod ar y groes waedlyd.

**Cynulleidfa:** Maddau i ni ein methiant i faddau i eraill mewn cariad, ar sail dy gariad a'th bardwn Di am ein hunanoldeb a'n methiannau. Amen.

**Gwilym Wyn**

Yr Adran Gydenwadol

RHAGFYR 19 2024 RHIF 199/200

# Myfyrdodau ar gyfer Suliau'r Adfent



**'Ble mae'r hwn a anwyd?'**

O! na welem ni olau – ei seren
A phrysuro'n camau
I Fethlem, i roi'n gemau
O'i flaen Ef i'w lawenhau.

*O. M. Lloyd*

- **Carol:** 'O deuwch, ffyddloniaid' (*Caneuon Ffydd*, 463)
- **Darlleniad:** Mathew 2:1–12
- **Myfyrdod**

Does gen i ddim amheuaeth nad hanes y doethion yw'r darn mwyaf poblogaidd o stori'r Nadolig cyntaf fel y mae wedi ei osod yn Efengyl Mathew. Pwy oedden nhw? Ble roedden nhw wedi darganfod yr wybodaeth am eni Meseia hirddisgwyliedig yr Iddewon? O ble y daethant, a sawl un oedd ohonyn nhw go iawn? Pwy a ŵyr, yntê? Allwn ni ddim ond dyfalu.

Peth pwysicach i ni na hynny fyddai rhoi sylw i'r cwestiwn a ofynnodd y doethion neu'r brenhinoedd neu'r seryddwyr wedi iddynt gyrraedd Jerwsalem: "Pa le y mae'r hwn a anwyd yn Frenin yr Iddewon? canys gwelsom ei seren ef yn y dwyrain, a daethom i'w addoli ef."

"Ble mae o?" Dyna i chi gwestiwn? Bydd eich ateb yn allweddol i'r ffordd y byddwch yn ymateb i'r byd o'ch cwmpas yn ystod tymor y Nadolig eleni. Oherwydd dyma gwestiwn pob Herod o hyd, pob anghrediniwr dibris o'r ŵyl, a phob un sy'n bychanu'r Crist heddiw. Roedd Herod yn gysáct, yn ddyfal, yn drwyadl ei ymdrechion i geisio dod o hyd i'r Iesu. Holodd y doethion yn dwll er mwy ceisio dod o hyd iddo er mwyn ei ladd. Ond doedd Iesu ddim yn wir fygythiad i Herod er ei fod yn gwrthwynebu popeth yr oedd Herod yn ei gynrychioli ar y pryd. "Ble mae o?" Dyna gwestiwn pob Herod cyfoes sydd â'i fryd ar ddarnio popeth sydd yn annwyl yng ngolwg Crist.

"Ble mae o?" gwaedda'r anffyddiwr heddiw. Dyma'r un sy'n bwrw sen ar enedigaeth y Crist ym Methlehem. Mae'n siŵr fod y rhain wrth law pan geisiodd y bugeiliaid rannu eu stori. Dyma'r rhai, meddai Eseia, fyddai'n ei wrthod a'i wadu (Eseia 53:3). Dyma'r rhai a safodd wrth droed y groes gan wawdio a gofyn, 'Os ti yw Mab Duw, disgyn oddi ar y groes. A'r un modd yr archoffeiriaid hefyd, gan watwar, gyda'r ysgrifenyddion a'r henuriaid, a ddywedasant, "Efe a waredodd eraill, ei hunan nis gall efe ei waredu. Os Brenin Israel yw, disgynned yr awron oddi ar y groes, ac ni a gredwn iddo."' (Mathew 27:40–41). Bydd rhai am wawdio o hyd a gofyn inni, "Ble mae'r Iesu hwn a aned ddwy fil o flynyddoedd yn ôl, ble mae o? Roedd i fod yn Dywysog Tangnefedd, a does dim tangnefedd yn y byd!"

"Ble mae o?" ebe'r sinig, ebe'r sawl sydd am ddathlu Gŵyl y Gaeaf yn hytrach na Gŵyl y Nadolig. "Ble mae Crist yng nghanol y celyn a'r uchelwydd, y goleuadau lliwgar ar y goeden, y ffenestri siopau addurnedig, eich Siôn Corn? Rwy'n gweld y rhain i gyd, ond ble mae eich Iesu? Ai Mab Duw ydi o, neu ddim? Wela i mohono fo yn unlle!"

"Ble mae o?" ebe'r crediniwr, y sawl sydd am ddod ac addoli a phlygu ger y crud eleni eto. A dyma ni, fel y doethion, yn chwilio, yn ceisio ac yn cael hyd i'r Iesu, gan wneud hynny nes y byddwn wedi ein bodloni. Roedd y doethion yn meddu ar ysbryd ymchwilgar; roedd rhyw chwilfrydedd yn amlwg yn eu paratoi i deithio i Fethlehem. Roedd eu ffydd hwy mor gryf yn y ffaith fod yr Iesu wedi ei eni nes roeddynt yn barod i ddilyn yr unig gliw oedd ganddynt, sef seren symudol yn y Dwyrain. Roeddynt yn benderfynol; roeddynt ganddynt ffydd fawr yn yr antur o'u blaenau, a chawsant mo'u siomi yng nghanlyniad yr ymdrech fawr. Cawsant eu gwobrwyo'n fwy na'r hyn a ddisgwylid: aethant i'w geisio, a'i gael. Syrthiasant i lawr ac addoli'r Iesu, a fu pethau byth yr un fath wedyn.

Oedwch wrth y goeden Nadolig a gofynnwch i chi'ch hunan eto'r Nadolig hwn am ein Iesu annwyl: "Ble mae'r Iesu heddiw, a phwy ydi o go iawn i mi?" Gobeithiaf y cewch ei ganfod yn eich calon a'ch bywyd, yn Waredwr ac yn Geidwad, yn Dywysog ac yn frawd. Dim ond inni geisio Crist â'n holl galon, enaid ac ysbryd, byddwn yn siŵr o ddod o hyd iddo. Yna cawn ninnau ar noswyl Nadolig eleni blygu ger ei fron a'i addoli, a theimlo'r wefr o'i ganfod yn real ac yn fyw yn ein bywyd!

- **Gweddi** (o'r Llyfr Addoliad Cyffredin; *Amser i Dduw*, gol. Elfed ap Nefydd Roberts, t. 172)

Paratoa ein calonnau, O Dduw, ar gyfer dyfodiad dy Fab, Iesu Grist. O gofio angen mawr y byd am Waredwr, dyfnha ein llawenydd wrth inni ymbaratoi i ddathlu ei enedigaeth mewn symlrwydd ym Methlem. Trwy gywir ffydd ynddo ef fel y Prynwr dwyfol, cryfha ein teyrngarwch a'n gobaith, fel pan ddêl mewn gononiant, y croesawn ef fel ein Harglwydd atgyfodedig, ein Meistr brenhinol a Gwaredwr ein heneidiau. Amen.

*Jim Clarke*

S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 22 Rhagfyr, am 7yh – Y Nadolig**
Nia Roberts sy'n arwain dathliadau'r Nadolig o Eglwys Gadeiriol Bangor. Ymhlith y gwesteion mae'r unawdwyr Shân Cothi, Steffan Lloyd Owen a Ffion Emyr. Mae'r carolau cynulleidfaol o dan arweiniad Mari Pritchard.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 22 Rhagfyr, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o garolau yng nghwmni Nan Powell-Davies

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 22 Rhagfyr, am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Delyth Morgans Phillips, Bwlch-llan

**Dydd Nadolig, 25 Rhagfyr, 5.30 ac 11yb**
Oedfa arbennig dan ofal aelodau Capel y Tabernacl, Efail Isaf




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

# Gweddi ar gyfer Nadolig 2024

**Oddi wrth Cynnal, y gwasanaeth cwnsela ar gyfer Clerigion, Gweinidogion yr Efengyl, gweithwyr Cristnogol a'u teuluoedd**

*O dawel ddinas Bethlehem -*
dyna ddywed y garol, gan gyflwyno darlun o ardal ddigynnwrf a hudolus.

Ond tybed pa mor dawel oedd ardal Bethlehem mewn gwirionedd adeg geni'r Iesu?

Oni fyddai problemau'r byd cyfoes i'w gweld yno hefyd?
Pobl ydy pobl ym mhob oes, yntê.

Gallwn ddychmygu y byddai yno aelwydydd gyda phobl yn dioddef o salwch corfforol neu feddyliol a hynny'n peri poen a phryder.
Aelwydydd lle byddai trais yn y cartref yn arwain at ddagrau, ofn a chleisiau.
Fel heddiw byddai rhai o ardal Bethlehem yn wynebu gwewyr ac efallai'n gweiddi'n uchel mewn anobaith am nad oedd modd iddynt ddianc rhag rhyw broblem bersonol, ac amgylchiadau caethiwus bywyd.

Fyddai Bethlehem ddim yn dawel gyda thraed milwyr yn cerdded y strydoedd fwy nag y mae strydoedd Wcráin, Israel, Gaza a sawl man arall yn y byd heddiw, a'r plant yn eu cartrefi yn ofni yfory.
Byddai sawl stumog yn rwmblan oherwydd diffyg bwyd.
A rhai'n oer oherwydd diffyg dillad a chysgod.

*O dawel ddinas Bethlehem…..daeth seren newydd dlos i wenu uwch dy ben.*

Dyma seren oedd yn arwydd o obaith newydd,
Dyma'r goleuni addawyd ers canrifoedd trwy'r proffwydi
Goleuni'r Duwdod ei hun yn dod mewn baban eiddil gwan, ond gyda nerth Duw yn ei ddwylo.

Y Goleuni sydd ar gael heddiw i gynorthwyo cleifion, dioddefwyr trais, yr anghenus, y pryderus, yr anobeithiol, y rhai mewn sefyllfaoedd o wrthdaro ac angen.

Y Nadolig hwn, Arglwydd, gweddïwn dros waith yr eglwysi wrth iddynt geisio dod â goleuni'r Iesu at rai sydd ddim ond yn gweld tywyllwch. Gad i ni fod fel y sêr bach oedd ochr yn ochr â'r seren fawr yn gwneud eu rhan i oleuo ardal Bethlehem.

Gweddïwn dros waith Cynnal a'r Stafell Fyw, gan ddiolch am y rhai sydd wedi profi rhyddid oddi wrth ddibyniaeth o bob math yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a'r rhai sy'n cynghori pobl yn eu caethiwed

Gweddïwn dros y miloedd ar filoedd sy'n byw yng nghanol neu dafliad carreg o drais a marwolaeth.

Gweddïwn dros bob unigolyn sydd eto heb brofi llewyrch Goleuni'r Byd yn eu bywyd a theimlo'r cyfle newydd ddaw yn sgil hynny. – y gobaith byw i ddynol ryw.

Clyw ein gweddi y Nadolig hwn,

yn enw Iesu ein Gwaredwr,

Amen

**AM FWY O FANYLION CYSYLLTWCH Â:** wynfordellisowen@adferiad.org | Rhif ffôn: 07796464045
www.adferiad.org/services/cynnal

# O Gefn Gwlad

## Beth yw'r Nadolig?

Rai blynyddoedd yn ôl mewn ysgol Sul gofynnwyd i dri o blant ddarlunio'r hyn olygai'r Nadolig iddyn nhw, a dweud pam.

Tynnodd un ferch lun ohoni ei hun yn chwythu bybls sebon i'r awyr gydag anrheg a dderbyniodd gan rywun. Mae'r bybls, meddai hi, yn lliwgar ac yn hwyl i'w chwythu – fel y mae'r Nadolig yn llawn lliw: ar goeden, yn y ffenestri, yn yr holl addurniadau. Mae gweld yr holl liw a'r holl olau yn fy ngwneud yn hapus. Ond wedyn, yn sydyn reit, daw'r tynnu i lawr a'r diffodd. Mae'r cyfan drosodd a ninnau'n wynebu ddyddiau tywyll mis Ionawr. Ydyn, mae'r bybls yn lliwgar ond dydyn nhw ddim yn para. Maen nhw'n byrstio ac yn diflannu fel y mae'r Nadolig llawn lliw a golau yn diflannu.

Tynnodd un bachgen, mab ffarm, lun o dractor. Dyma oeddwn i wedi gofyn amdano y Dolig yma, meddai. Ac nid rhyw hen dractor plastig, da i ddim, fydd wedi malu mewn deuddydd ond un mawr, cadarn, solet, un y mae yna lyw iddo yn troi'r olwynion blaen. Mi fydd o'n ddrud, dwi'n gwybod, ond mae gan Siôn Corn ddigon o bres, o'nd oes? Ie, un efo batri ynddo, i wneud iddo fynd ohono'i hun. Mae'n siŵr y gwnaiff y batri ddarfod yn y diwedd, ac mi wna innau flino arno, yn enwedig gan fod yna dractor go iawn allan ar y buarth. Ac mi fydda i'n gallu dreifio hwnnw pan fydda i beth yn hŷn.

Tynnodd merch arall lun babi. Dyma anrheg orau tŷ ni eleni, meddai. Babi bach, brawd bach i mi. Roedden ni fel teulu wedi gobeithio y câi ei eni ddydd Nadolig, ond mi landiodd wythnos ynghynt. Na, does dim llawer o lewyrch ar y goeden eleni, a dim anrhegion arbennig chwaith, dim cinio ofnadwy o sbesial. Edrych ymlaen at ddyfodiad y babi oedd disgwyl yn ein tŷ ni. A phan ddaeth, wel, y fo ydi popeth. Dwi ddim yn meindio nad ydi pethe yr un fath ag arfer, gan mod i'n cael tendio ar Mam a nyrsio fy mrawd bach, ac mae o'n werth y byd.

Tri darlun o'r Nadolig gan dri phlentyn. Pa un yw'r darlun gorau, y darlun cywir o'r gwir Nadolig, tybed? Dyna'r cwestiwn ofynnwyd ar ôl i'r lluniau gael eu cyflwyno. Mae'r ateb yn amlwg, yn tydi? Gwir fod hwyl a lliw a llawenydd yn narlun y plentyn cyntaf o'r chwythu bybls. Ond byrstio wnaeth y bybls yn y diwedd. Pethau darfodedig oedden nhw, yn para fawr ddim. Roedd y tractor yn para'n hwy, am rai dyddiau, mae'n siŵr, ac roedd o'n fwy cadarn ac arhosol na bybls. Fodd bynnag, dod i ddiwedd ei oes wnâi'r batri yn y diwedd, a pham boddran prynu un newydd gan fod yna dractor go iawn ar y buarth, llawer mwy cyffrous na'r tegan.

Ond newidiodd bywyd y ferch gafodd frawd bach yn llwyr. Fe newidiodd y Nadolig iddi, ac fe newidiodd bywyd yn gyfan gwbwl i'r teulu. Bellach roedd popeth yn y cartref yn troi o gwmpas yr un bychan – ei anghenion o, ei ddatblygiad o, y rheini oedd bwysicaf. Ie, dyna'r darlun cywir o'r Nadolig, onid e?

Nid fel rhywbeth lliwgar, darfodedig, y daeth Crist i'r byd, nid fel symbol dros dro o'r peth iawn chwaith, ond yn faban i newid ffocws pawb o'i gwmpas, a newid eu bywydau yn llwyr. A dyna wna Crist heddiw i bawb sy'n ei dderbyn fel anrheg pwysicaf pob Nadolig.

*Elfyn Pritchard*

## John Ambrose Lloyd (1815–74)

Wrth i'r Nadolig nesáu, ymhlith y carolau a genir, yn sicr, fydd y garol 'Wele cawsom, y Meseia' a hynny ar y dôn 'Wyddgrug', John Ambrose Lloyd. Cofir 150 o flynyddoedd ei farwolaeth eleni, ond pwy sy'n cofio ac yn nodi marwolaeth un o gyfansoddwyr allweddol Caniadaeth y Cysegr yng Nghymru?

Yn ystod y gwanwyn dwytha', fe berfformiodd un o fy nghorau, Côr Cymysg Dyffryn Conwy, 'Gweddi Habacuc' o waith J. Ambrose Lloyd, sef y cantawd gyntaf yn y Gymraeg, a hynny yng Nghapel y Traeth, Cricieth. Cafodd y cyfanwaith dderbyniad gwresog gan bobl Eifionydd. Prin bellach yw'r cyfle i glywed darnau o'r fath, ond eto mae'n rhaid inni ddal ati i ddyrchafu cerddoriaeth safonol er clod i Dduw, ac un a wnaeth hynny gyda brwdfrydedd oedd John Ambrose Lloyd.

Ceir pymtheg o'i donau yn *Caneuon Ffydd* – rhai sydd bellach yn diflannu o'n *repertoire*, megis 'Mary', 'Narberth', 'Cromer', ac ambell dôn diddychymyg ei chynghanedd – yn enwedig os ydach chi'n alto! – megis 'Bridport' neu 'Alun'. Ond ceir ambell dôn wych ganddo, megis 'Wynnstay' a 'Henryd', a fy ffefryn i – 'Whitford'. Hoff dôn y Dr Joseph Parry oedd 'Eifionydd.' A beth am "Hallelujah Chorus y Cymry", chwedl Joseph Parry, sef 'Teyrnasoedd y Ddaear'?

Pan o'n i'n fyfyriwr blwyddyn gyntaf yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, chwaraeodd yr Athro Gareth Williams record o 'Teyrnasoedd y Ddaear' i 40 ohonom yn ei ddarlith gan ofyn pwy oedd yn adnabod y darn. Codais i a Gethin Rhys, Porth-y-rhyd, ein llaw; roedd Gareth Williams wedi dotio! Oblegid yn y tair blynedd blaenorol, doedd neb yn ei ddarlith wedi clywed am 'Teyrnasoedd y Ddaear'. (Roeddwn yn digwydd adnabod y recordiad, sef Cymdeithas Gorawl Caernarfon o dan arweiniad Dilys Wynne Williams, ond doeddwn i ddim yn hoffi dangos fy hun, yr 'anorac' ag ydw i!) Cyhoeddodd Ambrose Lloyd *Casgliad o Donau* yn 1843, gan gynnwys 27 o'i donau, ac yn 1870 *Aberth Moliant*, gyda



dwy dôn yn unig o'i waith yn y gyfrol, sef 'Wyddgrug' ac 'Eifionydd'.

Credaf ei bod hi'n bwysig felly nodi a dathlu cyfraniad John Ambrose Lloyd eleni, y cyfansoddwr o'r Wyddgrug a fu'n byw yn Lerpwl, Conwy, Caer a'r Rhyl. Ef fu'n gyfrifol am y dadeni yng ngherddoriaeth y cysegr yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

'Canmolwn yn awr ein gwŷr enwog … hwy a geisiant allan felystra cerdd.'

*Trystan Lewis*

# Blwyddyn gron o gofio yn y Glyn – canmlwyddiant geni Islwyn Ffowc Elis

Bu tipyn o fwrlwm yn Nyffryn Ceiriog dros y flwyddyn ddiwethaf. Tua diwedd 2023 cytunodd aelodau pwyllgor Neuadd Goffa Ceiriog i gynnal cyfres o ddigwyddiadau i goffáu canmlwyddiant geni un o feibion galluocaf y dyffryn ac un o gewri llenyddol y genedl, sef Islwyn Ffowc Elis.

Yn gyntaf, ym mis Mawrth, cynhaliwyd noson o adloniant brethyn cartref. Dewiswyd detholiadau o waith Islwyn gan Elin Llwyd Morgan, a daeth naw o bobl leol i'r llwyfan i'w cyflwyno. Hefyd, clywsom rai o'i ganeuon mwyaf adnabyddus a ddewiswyd gan Bethan Jones, arweinydd y côr merched lleol, Lleisiau Ceiriog. Ym mis Ebrill, daeth awdurdod ar fywyd Islwyn, sef Rheinallt Llwyd, atom i roi darlith hynod ddiddorol ac addysgiadol ar fywyd a gyrfa yr awdur, gan gynnwys nifer helaeth o luniau du a gwyn yn olrhain ei hanes o'r crud i'r bedd.

Trefnwyd taith gerdded ym mis Mehefin, o ganol pentre Glyn Ceiriog, heibio'i gartref cyntaf, Rhos y Coed, ac ymlaen i'w ail gartref, fferm Aberwiel, ac Ysgol Nantyr, lle cafodd ei addysg fel plentyn ifanc. Caewyd yr ysgol ym 1959 a Chapel Saron yn lled ddiweddar yn 2016. Yn disgwyl am y cerddwyr wrth yr hen fynedfa i'r ysgol ar ddiwrnod y daith yr oedd Llinos Kilfoil (cyn-ddisgybl), a'i chasgliad hynod ddiddorol o hen luniau.

Ym mis Gorffennaf, dadorchuddiwyd bwrdd gwybodaeth yng nghanol y pentre gan Siân Lewis, merch Islwyn, a Geraint, ei gŵr. Cafwyd nifer o ddarlleniadau byr ac unawd gan Natalie Roberts, cyn i bawb ymgynnull yn y Neuadd Goffa i fwynhau paned, cacen a sgwrs.

Ym mis Hydref, cafwyd cyfle i wylio DVD o'r cyngerdd 'Cofio Islwyn' (2005) a recordiwyd gan Arwyn Jones, Hengoed. Wedyn, i goroni'r cyfan ym mis Tachwedd, bum diwrnod ar ôl beth fyddai wedi bod yn ben-blwydd Islwyn (sef 17 Tachwedd), cynhaliwyd cinio yn y Forwydden, Llwyn-mawr. Yn dilyn pryd bwyd blasus, cafwyd adloniant ardderchog gan Sioned Webb ac Arfon Gwilym. Siaradodd Sioned o'r galon am ei hatgofion o Islwyn o ddyddiau ei phlentyndod a'i harddegau, a chanodd Arfon dair o'i ganeuon mwyaf poblogaidd: 'Fy Llong Fach Arian i', 'Dashenka' a 'Tyrd i'r Mynydd'. Noson fendigedig a diweddglo perffaith i'r canmlwyddiant.

Fel hyn y bu i Rheinallt Llwyd grynhoi ei gyfraniad yn ei ddarlith 'Cipolwg ar Fywyd a Gyrfa Islwyn Ffowc Elis':

Daeth hogyn a fagwyd ar fferm yng nghwm Nantyr yn Nyffryn Ceiriog yn un o ffigurau cyhoeddus amlyca'r Gymru Gymraeg yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif. Ac fe ddaeth i amlygrwydd mewn sawl maes – fel gweinidog a heddychwr, fel llenor creadigol, fel golygydd a beirniad, fel darlledwr a lluniwr sgriptiau radio a dramâu teledu, ac fel ymgyrchydd gwleidyddol – a nodi'r prif feysydd. Roedd o hefyd yn arlunydd dawnus ac yn gerddor galluog. Ond er ei fod o'n ffigwr cyhoeddus, roedd o, ar yr un pryd, yn ŵr preifat iawn, yn ŵr swil, gwylaidd, diymhongar a hynaws a sensitif – yn wir, yn casáu'r cyhoeddus.

*Graham Edwards*
*Glyn Ceiriog*




Y bwrdd gwybodaeth ym mhentre Glyn Ceiriog

Cytûn
Eglwysi Ynghyd yng Nghymru
Churches Together in Wales

**Swyddog Polisi Cytûn: Eglwysi ynghyd yng Nghymru**

**21 awr yr wythnos**
**£24,457**

Oes gennych ddiddordeb a phrofiad ym maes polisi yng Nghymru? Oes gennych angerdd dros gefnogi tystiolaeth yr Eglwys?

Mae Cytûn: Eglwysi ynghyd yng Nghymru yn awyddus i benodi Swyddog Polisi.

Pwrpas y swydd yw hybu gwaith yr eglwysi trwy sicrhau cyfathrebu cyson ac amserol rhwng yr eglwysi â Llywodraeth, Senedd a chyrff cyhoeddus Cymru, a chynorthwyo eglwysi a mudiadau Cristnogol i gymryd rhan lawn yn y maes cyhoeddus yng Nghymru.

Am ragor o wybodaeth, gan gynnwys swydd ddisgrifiad llawn, ebostiwch: post@cytun.cymru

Dyddiad cau: 5pm 17 Ionawr 2025

# Tristwch Palesteina

Cawsom ein hatgoffa nos Sul cyntaf yr Adfent yng ngwasanaeth y Cymdeithasau Cymraeg yn yr Wyddgrug, wrth inni glywed darllen cerdd Aled Lloyd Davies (1930–2021), 'Tristwch Palesteina', cerdd a luniwyd yn 2004, nad peth newydd yw'r anghydfod yno.

Mae gwraidd yr anghydfod diweddar yn mynd yn ei ôl ganrif a mwy at hanes Prydain yn rhoi tiroedd ym Mhalesteina i wladychwyr Iddewig. Cadarnhawyd hynny wrth sefydlu gwladwriaeth Israel yn 1948 wedi diwedd yr Ail Ryfel Byd a dioddefaint Iddewon Ewrop yn prysuro'r sefydlu. Oddi ar hynny bu gwrthdaro mawr a rhyfela a throi allan a cholli tir sy'n peri inni anobeithio am unrhyw heddwch byth na diwedd i'r meddiannaeth a datrysiad i'r ddwy wladwriaeth .

Ond o graffu eto ar y lle a sylwi eto ar yr hanes, fe welwn ni fod Duw ei hun yn cynnig yr ateb i bob gwrthdaro. Daeth i dref fechan Bethlehem a chael ei eni'n faban bychan, Iesu fab Joseff, neu Yeshua ben Yoseph, yn wan a dinerth ym Mhalesteina'r ganrif gyntaf ynghanol cyfnod cynnar o ormes dan law'r Rhufeiniaid. Daeth ar neges o gymod rhwng nef a llawr, ac i rannu ei gariad a'i faddeuant a chyhoeddi 'tangnefedd ymhlith pobl, ewyllys da' (Luc 2:14), yn sail i'n heddwch ac yn waredigaeth inni yn ei fyw a'i farw drosom.

Dyma gerdd Aled a luniwyd ugain mlynedd yn ôl ac sy'n edrych yn ôl ddwy fil o flynyddoedd at sail ein gobaith am heddwch rhwng dynion a'i gilydd. Mae'n dal i grisialu ein pryderon am a ddaw, ein siom a'n braw at yr hyn sy'n digwydd yno heddiw, a'n dyheadau o hyd am heddwch yno a ledled byd.

(o weld y lladd a'r llofruddio diddiwedd sydd yn rhan o fywyd trigolion y Dwyrain Canol bellach)

Unwaith, bu yno stabal. Mab Duw yn llety'r ych,
am nad oedd iddo groeso mewn tre' na gwesty gwych.
Heddiw, 'does dim 'di newid. Digroeso'r stabal lom.
Herod sy'n rhodio'r strydoedd gan danio gwn a bom.

A chwi, y mwyn fugeiliaid, a'ch syndod wrth y crud,
lle 'roedd y baban bychan yn ddiddig, wyn ei fyd.
Fe gollwyd diniweidrwydd mewn byd di-feind fel hwn.
Yr hyn sy'n bwysig heddiw yw grym y cledd a'r gwn.

Angylion ddaeth i ddangos eu parch i'r baban glân,
a'u harmonïau nefol a lanwai'r byd â chân.
Ond heddiw 'Mhalesteina, mor drist pob bryn a phant,
a'r mamau oll yn wylo with weld llofruddio'u plant.

Fe ddaeth brenhinoedd daear i Fethlem, 'nôl y gair,
I weled Brenin Heddwch, gan blygu yn y gwair.
Ond mae arweinwyr heddiw yn ddall i neges Hwn,
gan gredu mai yr ateb bob tro yw bom a gwn.

Tywysog ein Tangnefedd. O clyw ein gweddi 'nawr.
Ymbiliwn am gael heddwch, dyna'n dyhead mawr.
O gwna nl oll yn addfwyn. Tangnefedd rho i ni,
a'r unig rym a geisiwn yw grym Dy gariad Di.

*Aled Lloyd Davies*
*Chwefror 2004*

O'r gyfrol *O Ben y Bryn i Ben y Beili*, Aled Lloyd Davies (argraffwyd yn 2008 er budd cronfa apêl leol ardal Edeyrnion ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Meirionnydd 2009, yn y Bala)

# Encil Cymod

Bydd Cymdeithas y Cymod yn cynnal Encil yng Ngwersyll yr Urdd Pentre Ifan, Sir Benfro, yn ystod y penwythnos 17–19 Ionawr 2025.

Pwrpas yr encil hwn yw rhoi cyfle inni ymuno gyda'n gilydd mewn llecyn tawel i fyfyrio ar ein heddwch mewnol mewn byd llawn gwrthdaro.

Bydd sgyrsiau a gweithgareddau amrywiol gan arbenigwyr ym meysydd heddwch, myfyrio a hunanddatblygiad. Bydd hefyd cyfle i fwynhau taith heddychlon o amgylch gogledd Sir Benfro fydd yn cynnwys ymweliad â Charreg Waldo, un o heddychwyr enwocaf ein cenedl, a chael swper nos Sadwrn mewn tafarn leol.

Cost y penwythnos fydd £150. Bydd hyn yn cynnwys holl weithgareddau'r penwythnos, llety a phrydau bwyd (bydd cost ychwanegol am swper yn y dafarn leol).

Gallwch gofrestru i ymuno â ni drwy lenwi'r ffurflen YMA

Os oes gennych unrhyw gwestiwn am yr encil, neu os hoffech ymuno â ni ond yn teimlo nad yw eich amgylchiadau ariannol yn caniatáu hynny ar hyn o bryd, cysylltwch i drafod ein cyfleoedd cymorth.

*Sian Evans*
*Swyddog Cymdeithas y Cymod*

# 'Clywch lu'r nef'

Bwriad tymor yr Adfent – 'y Dyfodiad' – sef y pedwar Sul sy'n arwain at y Nadolig, yw rhoi cyfle i bobl fyfyrio ar y gwahanol ffyrdd y mae Iesu Grist yn dod i'n byd.

Ar y Sul cyntaf, y pwyslais yw ei eni'n faban ym Methlem; a buom yn edrych ar garol sionc y Ficer Prichard sy'n ein hannog i fynd 'i Fethlem bawb dan ganu'.

Y pwyslais ar ail Sul yr Adfent yw geni Crist yn ysbrydol yng nghalon y credadun; a pha garol well i fyfyrio ar hynny na'r garol Saesneg boblogaidd, 'Hark! the herald angels sing' – carol sydd hefyd, wrth gwrs, yn hynod boblogaidd yn ei ffurf Gymraeg: 'Clywch lu'r nef yn seinio'n un,/ Henffych eni Ceidwad dyn!'

Awdur y garol orfoleddus hon yw Charles Wesley – un o emynwyr mawr y Saesneg, ac un a chanddo gysylltiadau Cymreig cryf, am iddo briodi Sarah Gwynne o blasty'r Garth ger Cilmeri. Daeth Charles Wesley yn Gristion yn 1738, a chael yr adeg honno, meddai, gân newydd yn ei galon; ac yn eithaf buan wedyn, lluniodd y garol hon yn 'emyn ar gyfer dydd Nadolig'.

Ysbrydolwyd y garol gan yr hanes yn Efengyl Luc am yr angylion – sef 'llu'r nef' – yn torri allan i foliannu wrth iddynt gyhoeddi i'r bugeiliaid y 'newyddion da o lawenydd mawr' fod Ceidwad wedi ei eni ym Methlem.

Roedd dau reswm pam y torrodd yr angylion allan i ganu – a pham y canodd Charles Wesley yntau ar eu hôl, gan annog 'pob cenedl is y rhod' i floeddio'n llawen.

Y rheswm cyntaf yw *pwy* oedd yr Un a aned ym Methlem; ac yn ei garol, mae Wesley yn pentyrru disgrifiad ar ben disgrifiad o'r Person rhyfeddol hwnnw. Ef yw 'Tad tragwyddoldeb', 'Duwdod yn y cnawd', 'Tywysog heddwch', 'Haul cyfiawnder'.

A'r rheswm arall yw *pam* y daeth Iesu i'n byd. Daeth i fod yn 'Immanuel' – yn 'Dduw gyda ni' – i'n cymodi â Duw; ac yn fwy na hynny, i'n galluogi, trwy ffydd ynddo Ef, i ddod yn blant i Dduw. Neu, yng ngeiriau'r garol: 'Ganwyd Ef, O! ryfedd drefn,/ Fel y genid ni drachefn.'

*E. Wyn James*
*Caerdydd*

(*'Munud i Feddwl', BBC Radio Cymru, ddydd Llun, 9 Rhagfyr 2024*)

# *Gras, Gobaith a Gogoniant: crefydd ac ysbrydolrwydd yng ngwaith Emrys ap Iwan* (D. Densil Morgan)

Cydnabyddir Emrys ap Iwan yn gyffredinol fel y meddyliwr a'r awdur a danseiliodd afael Prydeindod Seisnig ar ein hymwybyddiaeth genedlaethol. Anogodd ni i edrych arnom ein hunain mewn ffrâm Ewropeaidd, ac esgorodd hynny ar genedlaetholdeb diwylliannol a gwleidyddol. Ond mynegodd Alun Llywelyn-Williams y farn unwaith fod Emrys ap Iwan, er ei fod yn un o dadau cenedlaetholdeb modern, yn grefyddwr yn anad dim arall, a'i genedlaetholdeb yn wedd ar ei Gristnogaeth. Trafod Emrys ap Iwan o safbwynt tebyg y mae'r Athro Emeritws D. Densil Morgan yn y gyfrol hon, fel yn wir yr arwydda'r is-deitl, 'Crefydd ac ysbrydolrwydd yng ngwaith Emrys ap Iwan'.


Mae'r gyfrol yn dechrau gydag amlinelliad o'r derbyniad a gafodd gwaith a daliadau Emrys ap Iwan yn ystod yr ugeinfed ganrif a'r un bresennol. Trafodir yr ymateb a gafwyd i'w waith gan rai o wŷr llên amlycaf y cyfnod, megis T. Gwynn Jones, Saunders Lewis, R. T. Jenkins, D. Myrddin Lloyd, Iorwerth Peate, Bobi Jones, R. Tudur Jones, Dafydd Glyn Jones ac eraill. Ar y cyfan, ei waith fel llenor, gweledydd a chenedlaetholwr gafodd eu sylw yn bennaf.

Mae trafodaeth Densil Morgan ar waith Emrys ap Iwan fel crefyddwr yn dechrau drwy ei osod yng nghyd-destun diwinyddiaeth ei oes. Dyma gyfnod ailddehongli'r gred yn ysbrydoliaeth y Beibl yng ngoleuni damcaniaethau gwyddonol newydd a'r uwch-feirniadaeth destunol a darddodd o'r Almaen. Er i'r Beibl barhau i fod yn sylfaen i'w bregethu, moesolwr efengylaidd fyddai Emrys ap Iwan mewn gwirionedd ar hyd ei yrfa, yn ôl Densil Morgan. Fel y dywedodd ef ei hun, 'Yr ydym, er ys can mlynedd a mwy, wedi ymgyfyngu yn ormodol i'r hyn yr ydys yn ei alw yn bregethu efengylaidd yn lle pregethu'r Gair – holl gyngor Duw, yn ddyletswyddau, yn rhybuddion.' Camddeall ystyr cyfiawnhad drwy ffydd, meddai Emrys ap Iwan, yw tybio mai ymddiried yn unig y mae rhywun wrth gredu heb orfod ymegnïo dim ei hun.

Dyma'r cyfnod hefyd pan ddechreuodd Calfiniaeth golli ei hapêl, nid yng Nghymru yn unig ond yn eglwysi diwygiedig y Swistir a Ffrainc yn ogystal, fel y gwyddai Emrys ap Iwan wrth gwrs. Serch hynny, Methodist Calfinaidd oedd ef, ac fel y cyfryw derbyniai'r athrawiaeth Galfinaidd am etholedigaeth. Dyma gors ddiwinyddol, os bu un erioed. I'r sawl a gred, fel yntau, fod gan ddynolryw ewyllys rydd, mae llwyddo i gysoni hynny â'r athrawiaeth fod etholedigaeth wedi digwydd cyn bod amser a bod arfaeth Duw yn ddi-syfl yn dipyn o gamp. Nid yw'n syndod fod daliadau Calfinaidd wedi datblygu erbyn cyfnod Emrys ap Iwan i fod yn sbectrwm, a bod Calfiniaid ac Arminiaid yn gynyddol ddeall ei gilydd. Mae ef ei hun yn rhybuddio yn erbyn ynysu'r nodweddion dwyfol a'u gosod mewn gwrthgyferbyniad â'i gilydd. 'Y mae llawer peth sydd yn ymwahanu yn ei frigau yn ymgyfarfod yn ei foncyff,' meddai. Ni pherthyn i ni bob amser ddeall sut y digwydd hynny.

Mae parodrwydd Emrys ap Iwan i edrych ar brif bynciau'r ffydd mewn goleuni ffres yn dod i'r amlwg wrth i Densil Morgan drafod ei olygon ar natur Duw, y Drindod, yr Ymgnawdoliad, yr Iawn, y Farn a phynciau athrawiaethol eraill. Serch hynny, nid aeth ei ddehongliadau ohonynt y tu hwnt i ffiniau uniongrededd. Ni fu mor feiddgar yn ei ddehongliadau â'r diwinydd David Adams, er enghraifft.

Roedd Emrys ap Iwan ar ei fwyaf heriol wrth bregethu ar bynciau fel goblygiadau aelodaeth eglwysig a gofynion moesoldeb bersonol a chymdeithasol. O'r gofynion gwaelodol hyn ar ddyletswydd Cristnogol y cyfyd ei genadwri parthed pwysigrwydd cenedl ac iaith. Gwarchoder hunaniaeth y




genedl am ei bod yn gyfrwng gwareiddio dynoliaeth ac yn offeryn dwyn amcanion y Crëwr i ben yn y byd. Yng ngoleuni'r fath argyhoeddiadau gellir deall dyfnder a dwyster ei brotest yn erbyn mudiad yr 'Inglis côs' yn ei enwad.

Yn Densil Morgan cafodd Emrys ap Iwan ddehonglydd teilwng iawn. Llwyddodd i drafod daliadau ac ymdrechion Emrys gan eu gosod yn unol â'i flaenoriaethau ef ei hun. Gosododd ei yrfa hefyd mewn cyd-destun diwylliannol, hanesyddol a diwinyddol. Bydd pawb sydd yn ymddiddori yn hanes crefydd a syniadaeth yng Nghymru eisoes yn gyfarwydd â bywgrafffiadau dadansoddol a darllenadwy Densil Morgan, ac ni chânt eu siomi yn y gyfrol hon.

Mae diwyg y gyfrol 140 tudalen yn ddeniadol iawn, a phob clod i Wasg Prifysgol Cymru am eu gwaith glân a safonol.

*E. Gwynn Matthews*

(***Gras, Gobaith a Gogoniant*** gan D. Densil Morgan; cyhoeddir gan Wasg Prifysgol Cymru; pris: £16.99)

S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 29 Rhagfyr, am 7:30yh – Uchafbwyntiau**
Nia Roberts sy'n rhannu gwledd o ganu mawl a straeon ysbrydoledig wrth i ni fwynhau rhai o uchafbwyntiau'r gyfres. Ymhlith y cyfranwyr y mae'r Prifardd John Gwilym Jones, Gareth Richards, Rowland Jones ac Anwen Edwards. A chawn berfformiad disglair gan Siwan Henderson.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 29 Rhagfyr, am 7:30yb a 2yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Esyllt Maelor

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 29 Rhagfyr, am 12:00yp**
Cantata Cerdd Dant y Geni
Cantata'r Geni wedi ei osod ar gerdd dant gan Bethan Bryn

# Trysorau'r Ŵyl

*Sian Meinir*

Yn *Y Tyst* fis Mehefin eleni gofynnais y cwestiwn – beth yw trysor? F'awgrym fel ateb yr adeg honno oedd – rhywbeth prin a phrydferth, o ansawdd da, sy'n hynafol ond eto'n gyfoes ac yn fyw.

Hoffwn rannu gyda chi y trysorau Nadoligaidd sydd mor annwyl imi. Pleser blynyddol yn ystod cyfnod yr Adfent fydd mynd i chwilio yn y bocs Nadolig am y darnau bach papur sydd ag englynion fy nhad – Tecwyn Owen – arnynt. Fe'u derbyniaf ganddo'n flynyddol, a byddaf yn eu gosod gyda phegiau bach pren ar ganghennau'r goeden. Mae honno hefyd yn un fechan ond yn cael lle pwysig yn y tŷ oherwydd mai'r englynion sy'n ei haddurno!

Fel y gwyddoch, nid pawb sy'n gallu llunio englyn cans nid gorchwyl hawdd mohoni! Gall englyn da fod yn beth prydferth, yn hynafol yn ei hansawdd, ond eto'n gyfoes a gwerthfawr. Wrth edrych ar waith fy nhad, gwelaf fel y mae goleuni seren Bethlehem wedi'i swyno a bod llawenydd yr ŵyl yn hollbwysig iddo. Mae ambell un yn em; cofiaf i'w englyn Nadolig 2020 gael effaith arnaf, a rhin y geiriau am angylion y cyfnod hwnnw yn ein hysbytai yn arbennig. Mae'r englyn am y clychau hefyd yn ffefryn, ond mae pob un ohonynt yn drysor yn fy ngolwg. Meddyliais mai hyfryd o beth fyddai eu rhannu gyda chi. Peth byw yw barddoniaeth a phe byddech yn dymuno mae croeso ichi eu darllen ar goedd mewn oedfa neu eu rhannu ag eraill. Diolch ichi am eu darllen. Gyrraf fy nghyfarchion cynnes atoch gan ddymuno dedwyddwch ichi dros yr ŵyl,

Sian

Heddiw dewch i gyhoeddi – onid hon
yw gŵyl lon goleuni!
bachgen sydd wedi'i eni,
a Duw'r Ne'n ein daear ni.

Deued seren llawenydd – i hulio
dy aelwyd a'th fordydd,
a rhad ddoniau'r Diddanydd
i'th fwthyn ar doriad dydd.

Nadolig! Cei estyn dwylo'n annwyl
haelionus, diflino –
yn wledd o fawl iddo Fo.
I'r Iesu rho dy groeso.

A oes arwydd o'r seren yno fry
draw ar frig dy goeden,
a'r holl liwiau mor llawen
yn y nos i D'wysog Nen?



Heddiw gwelir rhyfeddod – anwylyn
ar wely mor ddinod,
y dwyfol anfeidrol Fod
yn isel wedi'i osod.

Daw y seren eleni â'i gwenau
yn gynnes i'n llonni,
a daw'r nef i'n daear ni
yn gân o gofio'r geni.

Nid y cyfoeth a'r moethau – nid y sioe,
nid y saig a'r dathliadau,
dichon mai'r hen gadachau
a wna i ni lawenhau.

Coeden a seren siriol – a helynt
yr angylion actol,
a Mair ddwys a miri'r ddol
ynfydrwydd mor anfeidrol.

Daeth gŵyl lawen y geni – a'r Iesu
yn drysor i'n llonni,
gŵyl annwyl lawn goleuni
aer y Nef i'n daear ni.

Hen seren ein llawenydd a welwn
a'i golau ysblennydd
yn hudo i'n haelwydydd
ein Ceidwad ar doriad dydd.

O clywch! O clywch y clychau nefolaidd
mor felys ei seiniau,
clywch y swynol garolau –
a llu Nef yn llawenhau.

Â'u dwylo i dawelu – ar y ward
gyda'r wên yn lleddfu
gofidiau drwy'r dyddiau du
y rhain sydd yn serennu.

Nadolig i estyn dwylo caredig
wrth y crud fai'n plesio,
boed dy roddi'n ddiflino –
yn ddydd o fawl iddo Fo.

Daw y seren ysblennydd – yn olau
i'th aelwyd o'r newydd,
a'th Geidwad ar doriad dydd
yn uno'n dy lawenydd.

Rhyfeddod rhyfeddodau a welwn
wrth wylied y golau
dwys ar syn wyneprydd dau
a'u trysor – Crist yr oesau.

Tecwyn Owen

# A anghofi di?

Roedd yna ŵr busnes llwyddiannus iawn oedd yn dod o deulu mawr. Roedd y teulu hwnnw'n deulu clos ac yn deulu tlawd. Roedd ei frodyr a'i chwiorydd yn ei chael hi'n anodd cael y ddau ben llinyn ynghyd. Un flwyddyn, ar ddechrau mis Rhagfyr, sylweddolodd ei fod e'n llawer rhy brysur i brynu anrhegion i'w berthnasau. Penderfynodd anfon siec o £100 i'r ugain ohonynt. Prynodd ugain o gardiau Nadolig er budd elusen ac un prynhawn yn ei swyddfa, rhwng ateb y ffôn a dianc bob hyn a hyn i drafod ambell i beth, ysgrifennodd y cardiau. Ysgrifennodd yr un frawddeg ar bob cerdyn, 'Meddyliais y dylet ti brynu dy anrheg Nadolig dy hun eleni!' Yna, wedi ysgrifennu'r sieciau yn ofalus a'r cyfeiriadau ar yr amlenni, trefnodd yng nghanol gorffwylledd ei swyddfa iddynt gael eu postio. Wrth i ddydd Nadolig agosáu dechreuodd boeni am y diffyg ymateb i'w haelioni. Nid bob dydd roedd ei deulu yn cael rhodd o £100 yr un! Ni dderbyniodd air o ddiolch gan yr un ohonynt. Yn y flwyddyn newydd dechreuodd glirio'r llanast ar ei ddesg. Wrth iddo wneud hynny darganfu ugain o sieciau wedi eu harwyddo o dan domen o ddogfennau!

## Esgeuluso'r pwysig

Yn union, fel gyda chardiau Nadolig y dyn busnes, gall rhai pethau pwysig iawn gael eu hesgeuluso a'u hanghofio gennym ni. 'Do, carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab ...' (Ioan 3:16). Dyna'r gwirionedd dylasai gael y flaenoriaeth ar y Nadolig.

Atgoffir ni gan Ioan bod cariad Duw tuag at 'y byd'. 'Do carodd Duw y byd.' Y gair Groeg am *byd* yw'r gair *cosmos* ac un diffiniad o'r gair yn ôl y geiriadur yw: 'The ungodly multitude; the whole mass of men alienated from God, and therefore hostile to the cause of Christ.' Dyma'r byd mae Duw yn ei garu, y dynion a'r merched mae ef am eu cyrraedd â'i gariad – y lliaws annuwiol, y myrddiynau sydd wedi eu gwahanu oddi wrtho gan bechod. Peidiwn ag anghofio'r ffaith syfrdanol bod Duw yn ein caru'r Nadolig hwn. Nid rhyw deimlad niwlog yw cariad Duw; caiff ei ddatgelu mewn gweithredu costus.

## Caraf chi

Cofiaf weld canwr pop yn canu mewn seremoni wobrwyo ar y teledu. Wedi

*parhad ar y dudalen gefn*

# Barn Annibynnol

## 'Pwy yw'r arteithiwr – ti a fi?'



Ddechre Rhagfyr cafodd Syria ei rhyddhau o afael llywodraeth dreisgar yr Arlywydd Bashar al-Assad. Mewn byd llawn anghyfiawnder, fflachiodd pelydryn o oleuni gobaith. Daw rhai o'r lluniau o ddathliadau pobol Syria yn eiconig: ffoaduriaid ar y ffin â Libanus yn awyddus i ddychwelyd adre, cerfluniau o Assad yn cael eu tynnu i lawr a'u chwalu.

Ond bu golygfeydd mwy emosiynol hyd yn oed na'r rhain – y tyrfaoedd yn torri i mewn i'r rhwydwaith o garchardai Assad lle cafodd degau o filoedd o garcharorion gwleidyddol eu cadw, eu poenydio a'u dienyddio. Gwelwyd carcharorion yn simsanu allan i olau dydd ar ôl blynyddoedd o gaethiwed mewn amgylchiadau fyddai'n troi stumog rhywun.

### Plaid Ba'ath

Bu tad Assad, y Cadfridog Hafez al-Assad, a'i fab wedyn yn rheoli Syria ers 1971 ac yn cynnal eu grym trwy reolaeth plaid neo-ffasgaidd y Ba'ath a gafael lem ar y boblogaeth trwy fygythiad y carchardai. Bu propaganda'r Ba'ath yn portreadu'r ddau al-Assad fel ffigurau meseianaidd a hanner-duwiau.

Y drwg-enwocaf o'r carchardai oedd Sednaya ger Damascus. Wrth i mi ysgrifennu hyn o eiriau mae'r ffeithiau ysgeler am Sednaya'n dechre dod i'r amlwg. Cadwyd y carcharorion yma mewn miloedd o gelloedd tanddaearol ar bedair lefel. Roedd y gwahanol adrannau yn arbenigo mewn ffyrdd penodol o boenydio. Roedd curo, chwipio, treisio rhywiol a siociau trydan yn rhan o'r drefn ddyddiol. Un rheol a orfodwyd yno gan y gwarchodwyr oedd distawrwydd rhwng y carcharorion. Byddai cosb i unrhyw garcharor a feiddiai siarad neu sibrwd wrth un arall.

### Cwestiwn sylfaenol

Mae'r ffeithiau hyn yn codi cwestiwn sylfaenol i ni. Sef, pa fath o ddyn neu wraig fedr arfer dulliau echrydus o arteithio person arall mewn gwaed oer? Wrth gwrs, un o grefftau cyntaf dynol ryw oedd arteithio eraill. Bu'r Eglwys ei hun yn euog ar adegau o achosi'r boen eithaf i'r sawl na fyddai'n cydymffurfio â'r credo swyddogol, yn cynnwys eu llosgi'n fyw fel 'hereticiaid'. Mae tua 150 o wledydd y byd heddiw yn arteithio carcharorion, er bod hynny'n groes i'w cyfraith eu hunain.

Nid yw gwledydd 'diwylliedig' y Gorllewin yn eithriadau. Cofiwn waith brwnt byddin Ffrainc yn Algeria, a lluoedd arfog Prydain gyda'u *waterboarding* yng Ngogledd Iwerddon. Yn sgil ymosodiadau 9/11 gan Al-qaida ar yr UDA, lansiodd y CIA raglen arteithio fyd-eang i dynnu gwybodaeth o bobol, Mwslimiaid bron i gyd, a amheuwyd o fod yn elyniaethus i'r Amerig. 'Enhanced interrogation' oedd geiriau teg y Pentagon am hynny. Defnyddiodd y CIA seicolegwyr proffesiynol weithiau i ddyfeisio dulliau o arteithio er mwyn casglu data ar yr effeithiau! Dyna a wnâi'r Natsïaid yn eu gwersylloedd caeth nhw. A chofier bod gwersyll Guantanamo ar agor o hyd.

Digon hawdd pwyntio'r bys at yr unben didrugaredd neu'r cadfridog creulon. Ond fyddai'r arteithio ddim yn bosib heb gydweithrediad ymarferol y miloedd lawer sy'n trin y gyllell, y chwip neu swîts trydan. Pobol sy'n mynd adre ar derfyn tyrn o waith at gwmni cariadus gwraig a phlant. Pobol fel ti a fi?

### Arian, casineb a phleser

Ond pam mae pobol gyffredin yn cyflawni'r gwaith budr yma? Honnir bod tri phrif reswm. Y cynta yw arian; mae'r gyflog yn dda – er mwyn sicrhau teyrngarwch y gwarchodwyr. Yr ail yw casineb at y grŵp y perthyn y carcharor iddo, boed hiliol, crefyddol, neu wleidyddol. Trydydd cymhelliad yw pleser – mwynhad sadistaidd y bwli wrth iddo achosi loes gorfforol i eraill. Ac mae derbyn awdurdod llwyr dros eraill, ac iwnifform i ddangos hynny, yn gallu newid cymeriad rhywun er gwaeth.

Oes modd atal y cam-drin tragwyddol yma ryw ddydd? Dim ond trwy newid calonnau a meddyliau'r ddynolryw nes bod y syniad o arfer trais yn wrthun. Troi atgasedd yn gariad at bob cyd-ddyn. Pregeth Iesu.

Ansicr iawn yw dyfodol Syria o hyd. Mae rhyfel cartre newydd yn bosibilrwydd. Mae gwledydd eraill eisoes yn cylchu fel fwlturiaid i sicrhau eu mantais ei hun yno. Ond hyderwn y bydd gwahanol bobloedd Syria'n gallu creu trefn newydd lle caiff pob carfan ethnig a chrefyddol gyd-fyw'n gymodlon heb gwmwl gorthrwm teyrn uwch eu pennau. Gweddïwn dros hynny.

**Robat Powell**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)



## Cofiadur 2024

Mae rhifyn Gaeaf 2024 o'r *Cofiadur* ar gael o Dŷ John Penri nawr.

Mae'n cynnwys Darlith Goffa Dr Pennar Davies a'r Dr R. Tudur Jones 2024 a draddodwyd gan y Parchg Ddr Alun Tudur ac erthygl yn seiliedig ar sgwrs a roddwyd gan Mr Richard Huws yng nghyfarfodydd yr Undeb 2024 am ei ewythr y Parchg Rhys Nicholas.

Os hoffech gopi yn rhad ac am ddim, cysylltwch â Thŷ John Penri i'w archebu: undeb@annibynwyr.cymru neu 01792 795888. Mae hefyd ar gael i'w ddarllen ar y we.

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# A anghofi di? – parhad



iddo orffen canu aeth y gynulleidfa yn gwbl wyllt gyda'i chymeradwyaeth ac meddai'r canwr wrthynt gan syllu i fyw llygad y camera, 'Rwyf fi am i chwi wybod fy mod i'n eich caru chi.' Nid oedd e'n fy ngharu i! Sut y medrai fy ngharu i? Doedd ef ddim yn fy adnabod i. Mae'r geiriau, 'Rwy'n eich caru,' yn cael eu defnyddio yn y modd mwyaf rhwydd fel eu bod yn colli eu gwir ystyr ond pan ddywed Duw ei fod yn ein caru, y mae'n profi hynny trwy ei weithredoedd. Rhoes ei unig Fab i ni. Mae stori fawr y Nadolig yn ymwneud â Duw ei hun yn dod i'n byd ym mherson ei annwyl Fab. Yr Arglwydd Iesu Grist yn ymwacau ei hun o'i Dduwdod i wisgo'n dyndod ni – i ddod yn gnawd. Fel y dywed Paul yn Philipiaid:

> Roedd e'n rhannu'r un natur â Duw, heb angen ceisio gwneud ei hun yn gydradd â Duw; ond dewisodd roi ei hun yn llwyr i wasanaethu eraill, a gwneud ei hun yn gaethwas, a dod aton ni fel person dynol – roedd yn amlwg i bawb ei fod yn ddyn. Yna diraddio ei hun fwy fyth, a bod yn ufudd, hyd yn oed i farw – ie, drwy gael ei ddienyddio ar y groes. (2:6–8).

Yr Arglwydd Iesu Grist yn gadael y gogoniant i gerdded llwybr y Groes er fy mwyn i ac er dy fwyn di.

## Credu

Yn dilyn cyfarfod yn y capel un nos Sadwrn yn Nhachwedd 1904 daeth Nantlais i fwlch yr argyhoeddiad. Dyma'i ddisgrifiad o'r hyn a ddigwyddodd, 'Wedi mynd adref, ac eistedd, yn dawel hollol a digynnwrf, gwelais mai trwy *gredu* y daw inni iachawdwriaeth, nid trwy ymdrech ac ing mewn gweddi drwy'r nos ar fy rhan i, ond trwy ymdrech rhywun arall drosof yn yr Ardd, ac ar y Groes; ie, trwy bwyso arno Ef a'i chwys gwaedlyd a'i farwol loes. O! Dyna ryddhad, Dyna dangnefedd!'

Gwna'r Beibl yn glir bod Duw yn Iesu Grist wedi dod atom nid yn unig fel athro neu esiampl, ond i gymryd arno'i hun y farn sydd mewn gwirionedd yn eiddo i ni. Aberthodd ei hun drosom. Wrth ganu am y Gwaredwr ar y Groes canodd William Williams – geiriau byddai'r annwyl John Ifor Jones yn eu dyfynnu'n aml yn y dosbarth Beiblaidd:

> Ac yno talwyd perffaith Iawn,
> Nes clirio llyfrau'r nef yn llawn,
> Heb ofyn dim i mi.

Peidiwn ag anghofio'r ffaith syfrdanol a rhyfeddol bod Duw wedi rhoi ei Fab i ni'r Nadolig hwn – ei Fab yw Baban yr Hoelion a roes ei fywyd drosom ar Groes i'n cymodi â Duw heb ofyn dim i mi nac i ti. Daw'r gwahoddiad i ni ymddiried yn yr Arglwydd Iesu Grist, rhannu'r newydd da amdano ag eraill ynghyd â byw'r newydd da hefyd.

Boed bendith Duw arnoch dros Ŵyl y Geni ynghyd â chwmni'r Crist byw wrth i ni groesi'r trothwy i flwyddyn newydd.

**Andrew Lenny**
(allan o *Nodion Seion*, Aberystwyth, Nadolig 2024)

